# tafod elái

CHWEFROR 2011

Rhif 254

Pris 80c


## Rhagfyr i'w Gofio



**Y Garth a Phentyrch yn yr eira ar 18 Rhagfyr**

Torrwyd pob record ym mis Rhagfyr wrth i'r tywydd oer rwystro pob agwedd o fywyd yr ardal. Roedd cyfartaledd y tymheredd yn -1.6°C dros y mis cyfan - yr oeraf am 116 o flynyddoedd. I'n paratoi daeth y cawod trwm cyntaf o eira ar ddiwedd mis Tachwedd - y 26ain. Yna ar ôl cyfnod oer daeth tomen enfawr ar y penwythnos 17 Rhagfyr gan adael y ffyrdd yn beryglus dros gyfnod y Nadolig.

## Clod Arbennig




Mae hoffter Ceri Anwen James, Llantrisant gynt, o'r Almaen yn chwedlonol erbyn hyn a phrin mae'n colli cyfle i fynd yno. Derbyniodd Wobr Athrawes Ysbrydoledig o Brifysgol Rhydychen yn dilyn ei henwebiad gan Ruth Pilcher, cyn-ddisgybl yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. "Roedd ei dulliau dysgu Almaeneg yn arloesol, gan gynnwys canu, chwarae ag odlau, actio dramâu byr ac ymarferion eraill yn sicr yn ein helpu i ddysgu iaith sy'n gymharol anodd."

## Ie Dros Gymru

Ar 3 Mawrth 2011 caiff pobl Cymru y cyfle i bleidleisio ar ddyfodol ein Cynulliad Cenedlaethol.

Ar adeg pan fo pawb yn sôn am doriadau i wasanaethau cyhoeddus, mae'n dda gwybod fod ein Cynulliad yn amddiffyn gwasanaethau i'r rhai mwyaf bregus, megis teithio am ddim ar fysus i bensiynwyr a phobl anabl, a llefrith am ddim i blant dan 7 mewn ysgolion.

Mae'n amser caled, ac y mae ar Gymru angen llais cryf.

Dros y ddegawd ddiwethaf, mae'r Cynulliad yn raddol wedi tyfu a magu hyder. Ond mae'r system i wneud cyfreithiau sy'n effeithio ar Gymru yn araf a chymhleth.

Mae ar ein Cynulliad angen caniatâd gan Lundain cyn y gall greu cyfreithiau mewn rhai meysydd. Gall hynny gymryd amser maith.

Mae wedi cymryd tair blynedd i'r Cynulliad gael pwerau wedi eu trosglwyddo o San Steffan i ddiwygio'r drefn o roi organau er mwyn rhoi gobaith am fywyd i bobl sy'n disgwyl am aren newydd. Er bod cefnogaeth eang i'r polisi hwn yng Nghymru, mae'r Cynulliad yn dal i aros am ganiatâd i weithredu.

Mae amser ac arian yn cael ei wastraffu trwy ddilyn camau cymhleth a diangen. Bydd pleidlais Ie yn helpu i ddwyn Cymru ymlaen trwy gyflymu'r system o wneud penderfyniadau i ganiatáu i Aelodau'r Cynulliad fwrw ymlaen â'u gwaith.

Os bydd pleidlais Na, caiff llais Cymru ei wanhau.

Bydd pleidlais Ie yn rhoi llais cryfach i Gymru.

## Sioeau Cerdd

**Cyn y Nadolig cyflwynwyd y sioe gerdd 'Chwarae Chwaer' gan Ysgol Gyfun Garth Olwg a 'Grease' gan Ysgol Gyfun Llanhari**





tafod elái

*GOLYGYDD*
*Penri Williams*
*029 20890040*

*HYSBYSEBION*
*David Knight 029 20891353*

*CYHOEDDUSRWYDD*
*Colin Williams*
*029 20890979*

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 1 Mawrth 2011
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
17 Chwefror 2011

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.net**

*Argraffwyr:*
**Gwasg Morgannwg**
**Castell Nedd SA10 7DR**
**Ffôn: 01792 815152**

**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**



## Strategaeth Iaith

Pasiwyd Deddf Iaith newydd gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Rhagfyr fydd yn rhoi Statws Swyddogol i'r iaith ac yn rhoi cyfrifoldeb ar y Comisiynydd Iaith i sicrhau fod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd.

Yn dilyn ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu cyhoeddwyd Strtaegaeth Iaith sy'n nodi gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer yr iaith a'r hyn y bwriedir ei wneud i gynyddu'r niferoedd sy'n medru siarad a defnyddio'r iaith. Mae'r Llywodraeth am sicrhau fod y Gymraeg yn parhau'n rhan annatod o'n diwylliant a'n cymdeithas a'i bod yn ffynnu fel cyfrwng iaith bob dydd.

Gellir darllen y Strategaeth ar wefan www.cymru.gov.uk.

**CLWB Y DWRLYN**

***Gyrfa Chwist***
**Nos Iau**
**17 Chwefror**
**Clwb Rygbi Pentyrch**

***Cinio Gŵyl Dewi***
Clwb Golff Creigiau
**7.00yh Nos Iau**
**3 Mawrth**

**Am wybodaeth**
**Ffoniwch 029 20890040**

**MERCHED Y WAWR**
Cangen y Garth

**'Cymeriadau'r Fro'**
Gyda Don Llewellyn
Nos Fercher
9 Chwefror
Neuadd Pentyrch

Am ragor o fanylion,
ffoniwch: 029 20890040

## S4C a'r Dyfodol

Dros yr wythnosau nesaf bydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn cynnal cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus i drafod dyfodol S4C. Hoffem eich gwahodd yn benodol i'r cyfarfod a gynhelir gennym am **7 o'r gloch Nos Lun Chwefror 7 yn Clwb y Bont, Pontypridd gyda Kevin Davies, Gareth Miles a Bethan Williams**

Mae dyfodol ein hunig sianel deledu Cymraeg yn y fantol. Mae'n wynebu toriadau o dros 40% i'w chyllid mewn termau real; cael ei thraflyncu gan y BBC; a bod grymoedd yn nwylo Gweinidogion San Steffan i gael gwared a hi yn llwyr. Mae'r llywodraeth yn arbed 94% o'r arian oedden nhw'n arfer talu i'r sianel, toriad sydd yn gwbl annheg.

Rydym ni fel ymgyrchwyr yn dweud fod rhaid gwarantu annibyniaeth rheolaeth ac annibyniaeth olygyddol lwyr i S4C heb ymyrraeth y BBC na'r Llywodraeth; a bod fformiwla gyllido annibynnol ar gyfer y sianel Gymraeg, ar sail chwyddiant ac mewn statud, yn hanfodol er mwyn sicrhau arian teg i greu rhaglenni Cymraeg o safon. Rydym yn cydnabod y gallai S4C berfformio yn well - dyna pam rydym yn ymgyrchu dros S4C newydd, ond ni fydd hynny'n bosib o dan gynlluniau'r Llywodraeth yn Llundain.

Ymhellach, credwn yn gryf mai ar ysgwyddau pobl Cymru y disgyn y cyfrifoldeb am ddyfodol S4C. Felly, y Cynulliad Cenedlaethol yn hytrach na'r Senedd yn Llundain a'r Adran Ddiwylliant dan ofal Mr Jeremy Hunt ddylai ddelio â darlledu yn ein gwlad.

Dros y blynyddoedd bu S4C yn ben conglfaen i'r diwylliant Cymraeg a gwahoddwn ni chi yn daer i'r cyfarfodydd cyhoeddus i drafod ffyrdd o sicrhau dyfodol i'r Sianel.

Penderfynwyd ar y cynlluniau hyn gan Lywodraeth San Steffan heb ymgynghori a neb yng Nghymru. Rydym yn erfyn felly ar bobl i ddod i'r cyfarfodydd i gyfrannu i'r drafodaeth.

Yn gywir,

Bethan Williams

Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Cydnabyddir cefnogaeth
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

# GWAELOD Y GARTH A FFYNNON TAF

Gohebydd Lleol: June Huws

**Marwolaeth Ann Gwenllian Howell Beech, Ffynnon Taf .**

Ganed Ann Beech yng Ngwaelod y Garth ar Ionawr 28ain yn unig blentyn i Rebecca ac Alun Phillips. Hyd y gwyddon ni, fe'i bedyddiwyd yng nghapel Bethlehem, lle roedd ei rhieni yn aelodau, tua dechrau'r haf y flwyddyn honno. Y Gweinidog bryd hynny oedd y Parchedig R. G. Berry, "Priodwyd hi a'i gŵr Gordon Beech yn y capel ar y 4ydd o Awst 1962 gan y gweinidog Gwilym Roberts.

Roedd gan Ann, felly, atgof, atgof plentyn ar y dechrau, am bob un o'r Gweinidogion sydd wedi cael y fraint o fod yn Weinidogion ym Methlehem. Fe welodd hi lanw a thrai yno ar wahanol gyfnodau o ran aelodaeth a ffyddlondeb i oedfaon ac yr oedd hi'n gwerthfawrogi'r gwmnïaeth a brofodd yno drwy gydol ei hoes.

Ym myd addysg y treuliodd Ann ei gyrfa. Pan aeth hi ei hun i'r ysgol yng Ngwaelod-y-garth gyntaf fedrai hi ddim siarad Saesneg. Roedd hi wedi ei magu ar aelwyd Gymraeg ac yn mynychu capel Cymraeg. Ar ôl cyfnod yn astudio yn Ysgol Ramadeg Caerffili ac yng Ngholeg Cartrefle Wrecsam aeth i ddysgu am ddwy flynedd yn Dudley. Gadael Dudley yn 1958 i ddysgu yn Ysgol y Babanod Tongwynlais; yna dysgu yn Ysgol Nantgarw gan orffen ei gyrfa yno fel Pennaeth.

Yr hyn sy'n aros yw atgof am ei hagwedd di-feddwl-ddrwg, ei ffyddlondeb, a'i pharodrwydd i weld y gorau mewn pobol. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Gordon, i'w mab Gwilym, a'i merch Catherine a'u teuluoedd.

**Gwellhad buan.**

Dymunwn wellhad buan a llwyr i Alwyn Harding Jones o Ffynnon Taf, sydd wedi treulio cyfnod byr yn yr ysbyty wedi triniaeth ar ei glun yn ddiweddar. Mae'n siwr mai rhedeg, yn hytrach na cherdded bydd Alwyn yn ei wneud bob bore Sadwrn o hyn ymlaen, gan ystyried ei fod yn awr yn hanner beionig!

# Ysgol Gyfun Llanhari

**RHESTR WERDD CYMRU 2010**

Cafodd Rhestr Werdd Cymru 2010 ei datgelu! Cafodd 52 o bobl a fu'n mynd i'r afael ag ystod o faterion cynaliadwyedd eu cydnabod am eu hymdrechion hynod ac mae Mr Alun Evans, Ysgol Gyfun Llanhari yn un ohonyn nhw. Mewn neuadd dan ei sang ym Mhafiliwn Llangollen ar 22 Tachwedd, cafodd pobl ledled Cymru eu hysbrydoli gan brofiadau Arwyr Gwyrdd Cymru.

Mewn digwyddiad â naws adwaith cadwyn, rhannodd arwyr o 2009, gan gynnwys Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, eu profiadau cyn trosglwyddo'r baton i'r pencampwyr a enwyd ar gyfer eleni. Dywedodd Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai: "Mae'r bobl a gydnabyddir ar y Rhestr Werdd yn brawf y gall un unigolyn wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Maent yn darparu enghreifftiau pendant go iawn o sut gallwn ni i gyd fyw bywydau llawer mwy cynaliadwy ac rwyf yn llongyfarch pob un o'r 52 ar eu llwyddiant."

Da iawn Mr Evans a chriw yr Eco Bwyllgor! (Llun tudalen 16)

**FFILMIO AR GYFER S4C**

Cafodd 9 disgybl sy'n astudio y Gymraeg yn y chweched, y cyfle i wneud ychydig o ffilmio ar gyfer y rhaglen 'Ar Lafar' a fydd ar S4C cyn bo hir. Fe chwaraewyd recordiadau o bobl hŷn y gymdeithas yn siarad Cymraeg i ni gael clywed y dafodiaith leol – yr Wenhwyseg. Roedden nhw am ffilmio ein sylwadau a'n hymatebion i'r lleisiau a glywsom. Cawsom ein cwestiynu gan Ifor ap Glyn – cyflwynydd y rhaglen – ac fe drafodwyd arferion iaith y Cymry. Roedd hwn yn cynnwys trafod y gwahaniaeth rhwng tafodiaith y Gogledd a thafodiaith y De. Cyfle gwych oedd hi i ni gael dysgu am ein hardal leol a'i harferion siarad.

**CWPAN GOLFF Y RABBITS**

Enillodd Gwen Rees y 'Rabbits Cup' ar ddiwedd blwyddyn diwethaf gyda 43 pwynt, 2 bwynt ar y blaen i'r ail gystadleuydd. Llwyddodd i guro'r bechgyn i gyd oedd yn cystadlu sydd yn gamp wych yn wir! Mae Gwen ym mlwyddyn 11 ac yn aelod o dîm golff Merched Bro Morgannwg a hefyd ail dîm Menywod Bro Morgannwg.

**GREASE**

Llongyfarchiadau mawr i gast, criw cefn llwyfan, criw technegol a'r band ar dri pherfformiad gwych o 'Grease' y tymor diwethaf yn Ysgol Gyfun Llanhari! Daeth pawb ynghyd fel 'ensemble' cryf gyda chanu, actio a cherddoriaeth wefreiddiol, golau ac effeithiau arbennig proffesiynol a digon o egni a hwyl i'w gael. Er bod sioe'r nos Wener wedi ei ganslo oherwydd yr eira perfformiwyd y noson olaf ar y nos Lun.

**GWYNFOR DAFYDD**

Bydd Gwynfor Dafydd, 8F, yn ymuno â chast Pobl y Cwm dros gyfnod y Nadolig. Chwarae rhan bachgen sy'n edrych am deulu maeth ar ol i'w berthynas gyda'i fam ddirywio fydd Gwynfor, a braf yw cael nodi mae un o gyn-ddisgyblion a chyn aelod o staff yma yn Llanhari, Danielle Branch, fydd yn chwarae rhan ei fam ar y sgrîn. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r ddau ohonynt gyda'r ffilmio.

# Cyhoeddiad Pwysig Urdd Gobaith Cymru – Cylch Llantrisant

urdd.org

Ers degawdau mae'r Urdd wedi cynnig cyfleoedd unigryw i blant a phobl ifanc Llantrisant. Mae'n bosib eich bod chi wedi profi rhai o'r cyfleoedd yma eich hun fel aelod; Jambori, Chwaraeon, Eisteddfodau.

Mae darpariaeth a llwyddiant yr Urdd yn ddibynnol ar gefnogaeth gan y gymuned. Rydym yn chwilio ar frys am bobl i gynorthwyo ein gwaith o fewn Cylch Llantrisant. Beth bynnag yw eich cefndir, gall awr neu ddwy o'ch amser yn ystod gweithgaredd wneud byd o wahaniaeth i aelodau'r ardal.

Rydym ar drothwy cyfnod mwyaf prysyr y flwyddyn gydag Eisteddfodau ar y gorwel ac rydym angen bobl i gynorthwyo gyda threfniant a rhediad y gweithgaredd craidd yma. Beth bynnag yw eich sgiliau, dwi'n siwr bod yna ddyletswydd a'ch enw chi arni!

Am sgwrs hollol anffurfiol heb unrhyw oblygiad cysylltwch â Jordan yn Swyddfa'r Urdd.

(029) 2063 5685 / Jordan@urdd.org

## Y Fari Lwyd





Unwaith eto eleni ymgasglodd griw ynghyd i hel tai gyda'r Fari Lwyd yn Efail Isaf, Llantrisant a Thonteg. Wedi croeso mawr yn yr holl dai, braf yw nodi bod cyfarchiadau blwyddyn newydd y plant wedi llwyddo i gasglu £120 tuag at elusen Bobath.



**Priodas Martin Thomas a Sián Beca**



Clwb Llyfrau Pontypridd yn mwynhau sgwrs gyda'r awdur Gareth Miles yng nghyfarfod mis Ionawr yng Nghlwb y Bont.



**Timothy Dodson**



**Osian Rhys**



**Tîm Cylch Meithrin Thomastown**








**Gareth Roberts yn hwylio'r Iwerydd**





**Arwyn Davies gyda'r teulu yn Seland Newydd**

# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
029 20890979

**Gwellhad llwyr a buan**
Mae hi wedi bod yn hen aeaf caled i nifer o drigolion Creigiau. Anfonwn ein cofion gorau am wellhad buan i ddwy sy'n ysu gweld gwella ar freichiau toredig - Morwen Edwards a Sue Roberts. Dymunwn yn dda hefyd i Heddwyn Richards a Sylvia Davies - y ddau wedi derbyn triniaeth ysbyty ychydig cyn y Nadolig. Yn meddwl amdanoch.

**Llongyfarchiadau mawr - Mr Timothy Dodson, Bargyfreithiwr, LL.B, B.Sc., M.Sc., MBA!**
Tipyn o gamp! Ychydig cyn y Nadolig enillodd Tim ei bumed gradd o dan arweiniad y Brifysgol Agored. Bellach does 'na fawr na wyr Tim am ddirgelion y Gyfraith. Gwych!

**Llongyfarchion hefyd i ...**
... Rhian (Bili) Dodson ac Ian Hartwell ar enedigaeth eu mab bach Osian Rhys ym mis Mai y llynedd - nai bach i Megan a Dafydd a chefnder i Morgan. Mae Ian a Bili ac Osian Rhys wedi ymgartrefu yng Nghilfynydd. Pob hapusrwydd deulu bach.

**Croeso i'r Creigiau ...**
... Marian James! Mae Marian wedi hen ymgartrefu yma yn y pentref ac yn llwyr gefnogol o bob dim Cymraeg sy'n digwydd yma. Daw o Landudno yn wreiddiol ond bellach Parc y Coed, Creigiau yw ei chartref.

Croeso hefyd i Emma, Simon, Elina a William symudodd i'w cartref newydd yn Llys Gwynno ychydig cyn y Nadolig. Mae gwreiddiau Emma a Simon yn Sir Gár ond maent wedi byw yma yn y Creigiau ers blwyddyn neu ddwy bellach. Meddyg yw Emma ac mae Simon yn Rheolwr ym myd busnes. Tybed ai Llys Gwynno yw'r clós Cymreicia yng Nghaerdydd gyda phedwar allan o'r pump tŷ yn gartrefi i deuluoedd Cymraeg eu hiaith?

**Trac yr Wythnos!**
I chwi fore-godwyr sy'n *fans* o sioe Dafydd a Caryl yn y bore – dyna braf oedd clywed llais bendigedig Jill Jenkins o'r Triban a'i datganiad pwerus o'r gán eiconig *'Llwch y Ddinas'* ddechrau mis Ionawr eleni yn cael ei chwarae yn feunyddiol ar y sioe. Tybed faint o'n darllenwyr sy'n ymwybodol bod Jill yn byw yma ar y stryd fawr yn Creigiau ers blynyddoedd maith bellach – a hithau wedi ymddeol flwyddyn neu ddwy yn ól o'i swydd fel Dirprwy Bennaeth y Babanod yn ysgol fach y Porth?

Ac yna yr wythnos ganlynol dyma lais ffres Catrin Herbert – disgybl yn ysgol Gyfun Plasmawr – yn canu ei chán *'Disgyn amdanat ti'* – yn cael ei chwarae bob bore yn slot 'trac yr wythnos' Caryl a Daf. Clod yn wir i ddwy o ferched Creigiau!

**Yr adran ramant!**
Ddydd Nadolig dyma Jonathan Thomas – Llys Gwynno gynt – yn gofyn i'w gariad Stephanie Bridges a wnai hi dderbyn ei gynnig i ddyweddio! Llongyfarchion i'r ddau ar eu dyweddiad – a phob bendith iddynt i'r dyfodol. Mae'r ddau yn aelodau o staff Cwmni Adeiladu y Principality yng Nghaerdydd – ac wedi ymgartrefu bellach yn y ddinas.

**Priodas aeaf**
Clywyd cyfarchion lu ar Radio Cymru un bore Gwener ym mis Tachwedd pan y bu i Sián Beca briodi Martin Thomas o Ddeiniolen. Priodwyd y ddau yn ysblander pentref Portmeirion ar ddiwrnod hynod o braf. Actorion yw'r ddau – i chwi sy wedi bod yn gwylio 'Rownd a Rownd' byddant yn wynebau cyfarwydd. Bellach maent wedi ymgartrefu ym mhentref Porthaethwy. Pob bendith eich dau!

**Wedi 3**
Anodd curo Mr Golygydd pan ddaw hi i graffder! 'Dyw e'n colli dim, wyddoch chi! Llongyfarchiadau mawr i un o ddarllenwyr ffyddlona y Tafod dros y ffin – sef Gwenllian Condron, bellach yn byw yn Stratford ers cyfnod go lew. Enillodd Gwen I-Pad yng nghystadleuaeth 'Cracyr 'Dolig' rhaglen Wedi 3! Da iawn ti, Gwen! Cadw fe'n saff – bydd Yncl Pete siwr o fod yn ei lygadu!

**Ble ma' nhw nawr?**
Wel, Arwyn Davies sy o dan sylw y mis hwn. Ers graddio mae Arwyn wedi gweld cryn dipyn ar y byd! Ac mi faswn i wrth fy modd yn newid lle gyda fe! Mae Arwyn ar ei drydydd tymor yn gweithio i gwmni gwyliau Crystal fel rheolwr cyrchfan gaeaf. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf bu'n gweithio lan yn un o ardaloedd sgio Seland Newydd yn mwynhau y golygfeydd ac yn cael cyfle i wneud llawer o sgio ei hun. Aeth ei frawd Gethin a'i ffrind David Evans allan i ymuno ag ef am gyfnod o dri mis yr haf diwethaf ac fel y gwelwch o'r lluniau cafodd Sylvia, Gareth a Lowri gyfle i dreulio ychydig o amser gydag ef yn ystod yr hydref. Ac wrth i'r rhifyn yma o'r Tafod ymddangos mae Arwel bellach yn y Swistir wedi hen gychwyn ar ei dymor yn gweithio yn Verbier. Os ewch allan yno chwiliwch am Arwyn! Braf dy fyd!

**Llwyddiant chwaraeon**
Llongyfarchiadau mawr i Lowri Davies ar gael ei dewis i chwarae i dím hoci merched, Penarth ac hefyd i dím ysgolion Caerdydd a'r Fro o dan 16. Da iawn ti, pob llwyddiant – tybed a wyt ti cystal á dy Fam eto?

**Swydd newydd**
Dymuniadau gorau i Steffan Thomas, Llys Gwynno wrth iddo gychwyn ar ei swydd fel cogydd dan hyfforddiant yng Ngwesty'r Park Plaza, Caerdydd. Da iawn ti, was – joia! Edrych ymlaen at gael ein gwádd i swper rhyw noson!!

**Ymddeoliad Delme**
Delme'n ymddeol? Sgersli bilif! Yn swyddogol gwnaeth yr Athro Delme Bowen ymddeol o'i swydd fel pennaeth yr Adran Bywydeg Celloedd ym Mhrifysgol Caerdydd ym mis Medi diwethaf. Ond chaiff e mo'i ryddhau yn ddi-amod! Derbyniodd Delme yr anrhydedd o gael ei benodi'n Athro Emeritws, Prifysgol Caerdydd. Dymunwn yn dda iddo. Dywed Delme - 'ymddeol er mwyn canolbwyntio ar wleidydda odw i' - a gwyddom ni drigolion Creigiau a'r ardal jest pa mor ymroddgar a di-flino yw gwaith Delme yn enw'r Blaid. Dilynwn y datblygiadau gyda diddordeb!

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i Trish a Don Thomas a'r plant. Bu farw mam Trish ar ddechrau'r flwyddyn ac rydym yn meddwl amdanynt fel teulu yn eu profedigaeth. Brodor o Sebastopol ger Pontypwl oedd Mrs Eunice Bassett ac mi roedd yn benteulu hyd y diwedd. Fel Nana i Lynfa, Gareth ac Alun y des i i'w hadnabod ac mi roedd yn ledi hynod o addfwyn ac yn agos at bawb a'i hadwaenai. Gwelir ei cholli yn fawr.

# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577

**"Cylch meithrin rhagorol"**
Cynhaliwyd arolygiad yng Nghylch Meithrin Thomastown ym mis Rhagfyr gan Estyn a'r dyfarniad – RHAGOROL. Dyma ychydig o ddyfyniadau o'r adroddiad:

"Mae'r holl blant yn parchu ei gilydd ac yn trin ei gilydd gydag ystyriaeth. Dyma nodwedd nodedig, yn enwedig gan fod y plant yma'n ifanc iawn..."

"Mae'r staff yn fodelau iaith da ac yn sgwrsio â'i gilydd a chyda'r plant yn Gymraeg. Rhaid eu cymeradwyo am ddysgu a defnyddio'r iaith yn bwrpasol yn y dosbarth."

"Mae synnwyr o bwrpas yn treiddio trwy'r Cylch ac mae pob aelod o'r tîm yn ymgymryd â'i rôl yn effeithiol iawn."

Llongyfarchiadau i Anti Jan (Janet Richards) a'i thîm am ddarparu gwasanaeth bendigedig i'n plant lleiaf yn ardal Tonyrefail.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf
Llawr Cyntaf, 9 Y Stryd Fawr,
Pontypridd. CF37 1QJ
**01443 407570**
**www.menteriaith.org**

# Cymraeg yn y Cartref

Rhywbeth newydd am y flwyddyn newydd – Prosiect newydd teuluol Menter Iaith RhCT.

'Cymraeg yn y Cartre''

Ydych chi'n adnabod rhywun fyddai'n hoffi manteisio ar gyfle arbennig i ymarfer siarad Cymraeg gartref gyda'u plentyn ac i ddatblygu hyder i siarad yr iaith â'r teulu gyda chymorth Menter Iaith.

Ymweliadau cartref, gweithgareddau hwylus ac adnoddau Cymraeg am ddim! Os hoffai rhywun fod yn rhan o'r prosiect arbennig yma, neu os ydych chi neu nhw am fwy o fanylion cysylltwch â Catrin Reynolds (Swyddog gweithgareddau Teuluol Menter Iaith RhCT)

E-bostiwch catrinreynolds@menteriaith.org neu ffoniwch: 07500 878 289 neu 01443 407570

Peidiwch â cholli'r cyfle arbennig yma!!

## Sesiynau Iaith a Chwarae Cymraeg

### (Sgiliau Sylfaenol Cymru)

Rhywbeth newydd i rieni a phlant ifanc yr ardal - Sesiynau Iaith a Chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg! – Yn cychwyn Dydd Iau Chwefror 3ydd yn llyfrgell Porth.

Cyfle i gael hwyl a sbri gyda'ch plentyn a gwneud ffrindiau newydd!

Rhaglen byr a hwylus dan nawdd Sgiliau Sylfaenol Cymru. Y bwriad yw rhannu syniadau a gweithgareddau amrywiol gyda rhieni a chynhalwyr er mwyn iddyn nhw ddeall pwysigrwydd rhain yn addysg a datblygiad eu plant.

Mae'r rhaglen yn cynnwys chwe sesiwn, pob un yn dilyn thema ac yn cynnwys gweithgaredd creadigol, canu ac adrodd stori a rhieni a chynhalwyr yn cael eu hannog i fenthyg llyfrau darllen Cymraeg bob wythnos.

Ar ddiwedd y rhaglen, bydd rhieni'n derbyn tystysgrif a bydd y plant yn cael anrheg fach.

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol: Marian Wynne*

**Penblwydd Hapus**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ken Evans, Maes y Sarn, wedi iddo ddathlu penblwydd arbennig iawn ym mis Rhagfyr.

**Ymddeol**

Dymunwn yn dda i Jennifer Taylor, Fox Hollow, wedi iddi ymddeol o'i swydd gyda Gwasanaeth Gwaed Cymru yn Nhonysguboriau.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau gwresog i Zoe ac Andrew Western, Maes y Sarn, ar enedigaeth eu mab bach, Harry, ym mis Tachwedd.

**Merched y Wawr**

Y Parchedig R. Alun Evans oedd yn siarad yng nghyfarfod Merched y Wawr mis Ionawr yng nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth. Y testun oedd "Llythyron Rhyfel" a chawsom gip ar gynnwys llythyron a ysgrifennwyd gan ei Dad a'i Nain yn ystod ac ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Adlewyrchai'r cynnwys ing a gofid y cyfnod yn ogystal â chyfeiriadau at bethau cyffredin bywyd bob dydd. Mae llythyron o'r fath yn dystiolaeth werthfawr ac i'w trysori. Sgwn i a fydd e-byst ein cyfnod yn goroesi ar gyfer ein disgynyddion ni?

**Rifiw y Dwrlyn**

"O mor lwcus ydych chi
Yn cael dod i'n Rifiw ni,
Fe fydd yma hwyl a chanu
Gwell na dim ar Es Ffor Sî."

Dyna gytgan cân agoriadol Rifiw y Dwrlyn a gynhaliwyd yn y Clwb Rygbi ym Mhentyrch nos Iau, Ionawr 13. A gwir pob gair oherwydd cawsom ddigonedd o hwyl , llawn cystal â'r hyn a welir ar y teledu.

O nofio, i arwain côr i ddawnsio ballet i ddynwared ac i actio, 'roedd talentau'r aelodau'n ddi-ddiwedd. Cawsom gystadleuwyr heini "Strictly Come Dancing" a fyddai'n siwr o ennill yn erbyn yr Ann a Gavin go iawn. Nid oes angen i Wil a Kate boeni gan fod yma yn Y Dwrlyn offeiriad urddasol a allai eu priodi, yn ogystal â ditectif abl iawn i ddatrys unrhyw ddirgelwch a boena'r teulu brenhinol. 'Roedd yna unigolion llawer mwy dymunol a deniadol yn cystadlu am gael gweithio gyda'n Arglwydd Siwgwr (lled-farfog ) ni, a llwyddodd Pete a Dud Y Dwrlyn i gynnal "cyfweliad y Tarsan ungoes" cofiadwy .

Unwaith eto, diolch i Margaret ac Ifan Roberts am lywio'r noson ac i'r sgriptwyr a'r perfformwyr i gyd. Do, fel y gân olaf "Cawsom ni lond bol o hwyl a sbri."

**Cyrraedd Mewn Pryd**

Mae pob un ohonom yn mwynhau croesawu'r plant adre' adeg y Nadolig. Dyma oedd gan Margaret ac Ifan i'w ddweud am antur Gareth cyn y Nadolig.

"Cael a chael oedd hi i Gareth Roberts, Tŷ Cnau gynt, fod adre erbyn y Nadolig. Ar ddiwedd Tachwedd, roedd wedi cychwyn ar ras hwylio 2700 milltir ar draws Môr Iwerydd o Las Palmas ar Ynysoedd y Caneri i St Lucia yn y Caribî. Ond mewn hyrddiau hynod stormus ychydig ddyddiau ar ôl cychwyn, fe dorrodd rhan o fast eu cwch "Gwawr" a bu'n rhaid troi tua'r De i ynysoedd Cap Verde ar arfordir Affrica i drwsio'r difrod a cholli tua chwe diwrnod i gyd. Felly, yn lle cyrraedd diwedd y fordaith a hedfan adref mewn digon o bryd ar gyfer y Nadolig, roedd Gareth bellach wythnos yn hwyr a Gatwick dan eira. Er mawr ryddhad i weddill y teulu oedd wedi cyrraedd o Gaernarfon drwy'r eira, fe gyrhaeddodd Gareth yntau Bentyrch noson o flaen Siôn Corn - gyda hanesion am bysgod hedegog yn glanio ar y dec, pysgod mwy yn dwgyd eu gwialen 'sgota a'r morfilod fu'n cadw cwmni iddyn nhw am oriau ar y tro!

Yn ogystal â'r chwech yn y criw, roedd dau greadur blewog ar fwrdd Gwawr yn cofnodi'r fordaith dros y we. Tasg Huw Puw y Tedi Bêr oedd anfon negeseuon i Ysgol Morfa Nefyn a gwaith gonc Mr Urdd oedd tynnu lluniau ar gyfer llyfr lloffion Ffion a Betsan yng Nghaernarfon. Mae sôn hefyd fod dilynwyr blog y ras erbyn hyn yn gyfarwydd â geiriau a miwsig y sianti "Cychod Wil a Mêr" diolch i'r criw o Bwllheli a chyfeiliant *"penny whistle"* Gareth." (Llun tudalen 4)

### Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

## Arholi'r Gwyddorau

### (sylwadau Phil Stone)

Yn ein cyfarfod nos Lun, 6ed Rhagfyr, trafododd Prif Weithredwr CBAC, Dr Gareth Pierce, sut y mae arholi'r Gwyddorau wedi esblygu yn ystod y deugain mlynedd diwethaf a sut y gallai'r system asesu newid yn y dyfodol.

Yn y rhan fwyaf o'r ganrif ddiwethaf, roedd rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus yn y Gwyddorau gyflwyno traethodau effeithiol, llunio diagramau clir, a galw i gof ei nodiadau - neu nodiadau'r athro/ athrawes. Heddiw, mae'r pwyslais ar y sgiliau hyn yn yr arholiad wedi lleihau'n sylweddol. Yn yr arholiad cyfoes, ceir cwestiynau strwythuredig sydd gan amlaf yn seiliedig ar sgiliau megis darllen, deall a dehongli data.

Yn Lloegr, mae'r Ysgrifennydd Addysg wedi cyhoeddi y bydd asesu llinol yn cael ei ailgyflwyno mewn ysgolion. A fydd Cymru yn efelychu'r patrwm? Mae'n annhebygol, efallai, ond bydd ein system asesu yn parhau i newid yn y blynyddoedd i ddod.

(Cyswllt: Neville Evans 029 2084 3806)

# PONTYPRIDD

*Gohebydd Lleol:*
*Jayne Rees*

**Genedigaeth.**
Croeso i wyres fach gyntaf Dave a Margaret Francis, Graigwen. Ganwyd Yanisha Sainam ym mis Ionawr i Rhodri a Noi yn Aberystwyth.

**Merched y Wawr**
Bydd y gangen yn cwrdd nos Iau, Chwefror 10fed yng Nghlwb y Bont am 7.30 pan fydd Mari Rhys yn dod i roi blas ar wneud Yoga. Croeso i aelodau newydd.

**Llongyfarchiadau**
Pen blwydd hapus hwyr i Sian Crowley, Graigwen ar ddathlu carreg filltir ym mis Rhagfyr. Hefyd i Alun Thomas oedd yn dathlu pen blwydd arbennig fis diwethaf.

**Clwb Llyfrau**
Byddwn yn cwrdd nos Fawrth, Chwefror 15fed am 8.00p.m yng Nghlwb y Bont. Y llyfr dan sylw y tro yma yw 'Creigiau Aberdaron' gan Gareth Ff. Williams.

Ym mis Mawrth byddwn yn cyfarfod nos Fawrth y 15fed i drafod y gyfrol 'Not quite white' gan Simon Thirsk

Llyfr mis Ebrill yw cofiant Hugh Griffith gan Hywel Gwynfryn.

## Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

**Sioeau Nadolig**
Ar ôl sawl wythnos brysur o ymarfer, cafwyd gwledd o ganu ac actio gan blant yr ysgol, o'r meithrin yr holl ffordd lan at blant o flwyddyn 6. Cawsom glywed stori'r geni gan blant y babanod, tra bod plant yr adran iau yn perfformio Pantolig, sef stori Sinderela Nadoligaidd. Roedd yn amlwg wrth edrych ar wynebau'r plant, yr actorion a'r gynulleidfa, eu bod nhw wrth eu bodd yn perfformio ac yn gwylio'r sioe. Braf oedd gweld y neuadd yn llawn ar gyfer yr holl berfformiadau. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at eu llwyddiant.

**Ffair Nadolig**
Bu'r ffair Nadolig yn llwyddiannus unwaith eto eleni, ac roedd neuadd yr ysgol yn llawn bwrlwm fel arfer. Gweithiodd y Gymdeithas Rhieni yn galed er mwyn trefnu'r ffair a chyfrannodd y staff eu hamser wrth weithio tu ôl i'r stondinau gan sicrhau llwyddiant y ffair. Roedd amrywiaeth o stondinau, yn amrywio o 'tombola' i stondin gacennau. Darparodd Sue John a rhai o'r staff frechdanau twrci a gwin twym. Yng nghanol y bwrlwm i gyd, cawsom ymwelydd arbennig. Bûm yn ffodus iawn i gael cwmni Siôn Corn a rhai o'i gorrachod yn ein ffair Nadolig. Roedd y plant yn falch iawn o gael y cyfle i ddweud wrth Siôn Corn beth ddymunant gael yn anrhegion. Diolch i bawb a gyfrannodd eitemau at y raffl, roedd pob un yn hapus gyda'u gwobrau. Yn sicr roedd Mrs Hulse yn bles ei bod hi wedi ennill hamper y staff am yr ail dro. Diolch i bob un a helpodd a diolch i bob un am gefnogi.

**Pêl-rwyd**
Bu merched Blynyddoedd 5 a 6 yn cystadlu yn nhwrnament pêl-rwyd yr Urdd ym Mhenybont ar ddydd Mawrth, Ionawr 11eg. Roedd y merched wedi mwynhau cystadlu yn erbyn plant o wahanol ysgolion a braf oedd gweld pob un yn cymdeithasu'n dda gyda'i gilydd. Edrychwn ymlaen at ymweliad gan dîm bêl-rwyd Ysgol Gynradd Dolau yn fuan.

**Panto**
Gadawodd pedwar bws llawn o blant o du allan i'r ysgol fore dydd Gwener, 14eg o Ionawr a theithio i Bontypridd. Aethant i weld Panto, "Myrddin" yng Nghanolfan Celfyddydau y Muni. Roedd y ganolfan wedi ei llenwi gyda phlant o Ysgol Llantrisant, plant o flynyddoedd 1 i 6. Roedd pob un wedi mwynhau gwylio stori serch rhwng Myrddin ac Aneurin, a phawb yn falch o weld diweddglo hapus i'r stori.

**Dyweddio**
Pob dymuniad da i Alwyn Thomas, mab Shan a Robert, Graigwen Parc ar ei ddyweddiad â Lisa o Newcastle.

**Teulu**
Yn ystod y gyfres ddiwetha fe ymddangosodd dau o fois a chysylltiadau â'r ardal. Rydym yn hen gyfarwydd â gweld yr actor Geraint Todd ar y sgrin fach ond yn gwneud ei ymddangosiad cyntaf ar S4C oedd Noa, mab bach Chris a Merrill, Lan Close, Graigwen. Fe oedd babi Llinos yn y bennod olaf !


**Ymddeoliad**
Ar ôl dysgu am flynyddoedd yn yr ardal mae Val a Steve Williams, Parc Prospect wedi ymddeol. Buodd Val yn athrawes yn Ysgol Gynradd Coed Pen Maen, Pontypridd a Steve yn athro yn Ysgol Gyfun Aberpennar.

**Newyddion Da**
Yn ystod mis Rhagfyr fe briododd Jane Aaron a'i phartner John Koch yn yr Unol Daleithiau. Llongyfarchiadau!

**Croeso**
Yng nghanol eira mis Rhagfyr fe symudodd Emma O'Brian a'i mab, Wil i Hillside View, Graigwen. Mae Emma yn athrawes yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a Wil yn ddisgybl yn Ysgol Evan James.

**BanglaCymru**
Yn ei gylchlythyr diweddara' at gefnogwyr yr elusen roedd gan Wil Morus Jones newyddion rhagorol am lwyddiant BanglaCymru - maent wedi trin 315 o ddioddefwyr mewn cyn lleied o amser.

**Clwb y Bont**
Llongyfarchiadau i Dafydd Williams, Tongwynlais - enillydd lwcus Clwb 200. Mae £200 ar ei ffordd i chi!!



# Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

**Bag Eco**
Llongyfarchiadau i Cati Davies o Flwyddyn 6 â enillodd y gystadleuaeth i lunio logo ar gyfer bag eco yr ysgol. Mae'r bag eco ar werth o'r ysgol am £2. Bydd unrhyw elw a weir o werthiant y bagiau yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor Eco i wella amgylchedd yr ysgol.




**Cyngor Eco**
Cynhaliwyd etholiad ar ddechrau Ionawr i ddewis cynrychiolwyr o Flynyddoedd 1-6 i fod ar y Cyngor Eco. Dyma'r plant â etholwyd eleni: Blwyddyn 1 - Holly Edwards, Scarlett Gowing. Blwyddyn 2 - Jenson Israel, Joseff Carpenter, Molly Greenwood. Blwyddyn 3 - Hanna Hughes, Jack Williams, Menna Neil. Blwyddyn 4 - Dylan John, Simone Roberts. Blwyddyn 5 - Callum Jones, Elliott Jenkins, Iestyn Stevens. Blwyddyn 6 - Kate Maidment-Davies, Seren Spencer.

**Kit 4 Kids**
Diolch yn fawr i bawb gefnogodd ein hymgyrch 'Kit 4 Kids'. Llwyddwyd i gasglu 978 o docynnau o'r South Wales Echo - derbyniodd yr ysgol £285 i brynu adnoddau.

**Sioeau Nadolig**
Diolch yn fawr iawn i'r holl blant a staff yr ysgol am sicrhau llwyddiant ysgubol y sioeau Nadolig eto eleni. Cynhaliwyd 7 sioe i gyd! Diolch hefyd i'r rhieni am eu cymorth gyda'r gwisgoedd ac i eglwys Dewi Sant a Ficer Ruth am eu cefnogaeth bob amser.

**'Bute to the Future'**
Mwynhaodd plant yr Adran Iau berfformiad o sioe 'Bute to the Future'. Sioe wyddonol ydyw am atyniadau Bae Caerdydd. Trefnwyd yr ymweliad gan EBP.

**Beibl Chwilotwr**
Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn edrych 'mlaen i ymweliadau wythnosol Y Parchedig Carwyn Arthur sydd yn rhoi gwersi Beibl Chwilotwr i'r dosbarth.

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Croesawu'r Flwyddyn Newydd**
Roedd yn braf iawn eleni eto i gael grŵp o blant a'u rhieni i'n cyfarch ni ar fore'r Calan ym mhentref Efail Isaf. Mae'r arfer o gasglu Calennig yn prysur ddiflannu o'r wlad, ac mae'n wych fod y plant yma a'u rhieni brwdfrydig yn cadw'r hen draddodiad yn fyw.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i Marilyn ac Arthur Garnon, Heol y Ffynnon ar farwolaeth Graham, brawd Marilyn, ddechrau'r flwyddyn.

**Yn yr Ysbyty**
Dymunwn wellhad buan i Dave Israel, Ffordd y Capel sydd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Dymunwn yn dda i John Jones, Nantyfelin sydd yn mynd i dderbyn triniaeth ar ei lygaid yn ysbyty Brenhinol Morgannwg ym mis Chwefror.

**Teithio'r Byd**
Mae Enfys Dixey, Heol y Ffynnon a'i chariad Siôn wedi cymryd egwyl o'u swyddi i deithio De America am saith mis gan ymweld â gwledydd Brasil, Uruguay, Yr Ariannin a Phatagonia, Bolivia, Periw a Chile. Byddant yn hedfan wedyn i Seland Newydd ddiwedd mis Awst ac yn aros yno am ryw ddeufis mewn da bryd i wylio'r Rygbi yng Nghwpan y Byd. Cael rhyw wythnos fach yn Hong Kong ar eu ffordd adre, ac rwy'n siŵr y bydd Ann yn hynod o falch gael eu croesawu'n ôl adre i ddathlu'r Nadolig yn Efail Isaf.
Mae Enfys yn aelod brwd o'r tîm sydd yn arwain aelodau Teulu Twm yn Y Tabernacl ac rwy'n siŵr y byddant yn ei cholli yn ystod y flwyddyn. Pob hwyl i chi eich dau ar eich taith anturus.

## Y TABERNACL

**Gweithgareddau'r Nadolig**
Fel arfer mae cyfnod y Nadolig yn fwrlwm o brysurdeb yn y Tabernacl, ond eleni daeth yr eira a'r rhew i gyfyngu ychydig ar y gweithgareddau. Yn ffodus roedd plant yr Ysgol Sul wedi cynnal eu gwasanaeth cyn i'r eira gyrraedd a chafwyd cyflwyniad hyfryd o stori'r geni gan y plant. Yn anffodus bu'n rhaid canslo gwasanaeth aelodau Teulu Twm a chyngerdd Nadolig Côr Godre'r Garth. Er bod y ffordd yn dal yn beryglus daeth nifer dda o selogion dewr i'r Gwasanaeth Noswyl Nadolig a chafwyd gwasanaeth cofiadwy. Cafodd aelodau Teulu Twm gyfle i berfformio eu drama hwythau'r noson honno.

**Caniadaeth y Cysegr**
Ar brynhawn Dydd Sul, Ionawr 16eg fe ddarlledwyd rhan o'r Gymanfa Ganu a gynhaliwyd ym mis Medi ar y rhaglen radio 'Caniadaeth y Cysegr'. Cymanfa oedd hon i ddathlu agor y Ganolfan newydd. Y Parchedig Eirian Rees fu'n cyflwyno'r emynau, Eilir Owen Griffiths oedd yr arweinydd a'r organydd oedd Carey Williams. Arweinydd y gerddorfa oedd Bethan Roberts a chafwyd eitemau gan Barti'r Efail a Chôr Merched y Garth.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Trish a Don Thomas ar golli mam Trish yn ystod y mis.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Elaine James ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ystod mis Ionawr.

**Ennill Set Deledu**
Llongyfarchiadau gwresog i Beryl Rowley ar ennill set deledu mewn cystadleuaeth 'Cracr Dolig' ar y rhaglen deledu 'Wedi 7'. Da iawn, Beryl!

**Merched y Tabernacl**
Daeth nifer dda o aelodau Merched y Tabernacl ynghyd i'r ganolfan newydd ar yr 11eg o Ionawr i drefnu rhaglen ar gyfer y flwyddyn. Byddwn yn teithio i Gaerdydd ddydd Mawrth, Chwefror 15fed i wrando ar Gyngerdd Cerddorfaol yn Neuadd Dewi Sant sydd yn dechrau am 1 o'r gloch y prynhawn.

**Trefn yr Oedfaon**
Chwefror 6 Oedfa Gymun o dan ofal ein Gweinidog
Chwefror 13 Y Parchedig Aled Edwards
Chwefror 20 Keith Rowlands
Chwefror 27 Elenid Jones

JOB TRAC CYMRU
Arbenigwyr Recriwtio Siaradwyr Cymraeg
www.jobtraccymru.co.uk

## Cyngherddau Acapela

Mae'n bleser gan Acapela, Pentyrch, gyhoeddi ei gyfres o gyngherddau mis Mawrth sy'n llawn o amrywiaeth. Mae'r mis yn cychwyn gyda chyngerdd lawnsio albwm newydd Gymreig Catrin Finch. Does dim angen dweud mwy! Yn dilyn y gyngerdd honno fe wahoddwn ni chi i noson rhamantus allan yn yr opera gyda *The Opera Mint Company*. Newid gwedd yn hollol wedyn gyda chyngerdd i ddathlu'r cysylltiad celtaidd rhwng Cymru ac Iwerddon cyn gêm y chwe gwlad. Mae'r noson yn cynnwys Dewi Pws, Ryland Teifi a Rosin Clancey. Noson sydd yn sicr o fod yn llawn hwyl. Lawnsiad digidol yw'r gyngerdd nesaf gyda thalent newydd sydd yn dod drwy'r stiwdio, sef Rhys Hoddinot a Crash & Berney. Mae hon yn noson sydd yn edrych yn addawol iawn. I orffen y gyfres gyffrous yma o gyngherddau mae Rusty Shackle, band gwerinol/pop sydd yn dechrau amlygu ei hun yn enwedig ar ôl cyrraedd rhif 3 gyda *iTunes* ym mis awst '10. Maent hefyd yn un o ffefrynau RadioWales ac i'w clywed yn aml ar yr osaf radio. Mae tocynnau ar gael ar y wefan **www.acapela.co.uk/concerts-cyngerdd**.

## Torri Geiriau

Mae prosiect newydd 'Torri Geiriau' wedi dechrau yng nghylchoedd Meithrin y Rhondda. Diolch i grant gan Burberry mae 9 o gylchoedd y Rhondda yn derbyn sesiynau wythnosol sydd yn helpu plant i gyfathrebu gyda hyder. Bydd y sesiynau yma yn rhedeg am flwyddyn.

Yn ôl Teleri Jones, Swyddog Datblygu'r Rhondda i Fudiad Ysgolion Meithrin: "Mae plant a staff y Cylchoedd yn manteisio ar y sesiynau yma. Mae'r staff yn dysgu brawddegau a gweithgareddau newydd y gallant gyflwyno o fewn strwythur dyddiol eu Cylch, ac mae'r plant yn ennyn hyder wrth adeiladu sgiliau cyfarthrebu a gwrando, wrth chwarae a chael hwyl. Mae'n grêt fod sesiynau o'r math yn cael eu cynnig yn y Gymraeg ac mae'r Cylchoedd yn elwa yn fawr o'r ymweliadau wythnosol."

Mae Talking Tots / Torri Geiriau yn darparu dosbarthiadau rhyngweithiol sydd yn llawn hwyl er mwyn helpu plant cyn oed ysgol i gyfathrebu'n hyderus. Mae pob sesiwn wedi ei gynllunio gan arbenigwyr ac yn llawn caneuon, gemau, rhigymau a gweithgareddau cyffrous, Mae'n helpu plant i fagu hyder cymdeithasol a sgiliau cyfathrebu - sydd yn hanfodol i fywyd iach a hapus!

Yn ôl Carys Llewelyn sydd yn cynnal y sesiynau: "Mae Torri Geiriau yn addas ar gyfer unrhyw blentyn o flwydd oed. Mae ein sesiynau yn hwyl ac yn rhyngweithiol ac yn hybu sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol plant cyn oed ysgol. Gall ein dosbarthiadau cyfeillgar a hwylus helpu pob plentyn i ddatblygu rhai o sgiliau pwysig bywyd, megis hyder cymdeithasol, sgiliau cyfathrebu, dysgu cymryd tro a gwrando.

# Ysgol Garth Olwg

**Babi Newydd.**
Llongyfarchiadau i Mrs. Morris ar enedigaeth bachgen bach yn ystod gwyliau'r Nadolig. Dymuniadau da oddi wrth bawb yn yr ysgol.

**Perfformiadau'r Côr.**
Cafodd gôr yr ysgol amser prysur iawn cyn y Nadolig, wrth iddynt berfformio mewn sawl cyngerdd. Perfformion nhw yng nghapel St. Ioan, Caerdydd, yng nghystadleuaeth 'The Xmas Factor' yn Arcêd y Frenhines, yn ystod cyngerdd carolau dysgwyr yr ardal ac yn ystod ymweliadau gyda chartrefi henoed y gymuned. Mwynheuodd y plant y cyfleoedd i berfformio mewn sawl lle, gyda 'Rhythm of Life' yn ffefryn gan bob gynulleidfa! Diolch i Mrs. Howard a Mr. Jones am hyfforddi'r plant.

**Ymweliad â'r India.**
Cafodd Miss Lewis amser bythgofiadwy wrth ymweld ag ardal Jamshedpur, India. Buodd Miss Lewis yn cynrychioli'r ysgol fel rhan o'n gwaith rhyngwladol gyda phrosiect UKIERI. Mwynheuodd y plant glywed ei hanes ac roedd ganddynt sawl cwestiwn diddorol i ofyn.

**Ymweliad yr Adar.**
Cafodd y plant Meithrin a Derbyn ymweliad gan gynrychiolwyr o Ganolfan Adar Ysglafaethus Cymru. Daethon nhw â rhai o'r adar gyda nhw, er mwyn i'r plant ddysgu am y creaduriaid yma fel rhan o'u gwaith thema.

**Pel-rwyd yr Urdd.**
Aeth tîm pel-rwyd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 i chwarae yn nhwrnament yr Urdd yn ddiweddar. Chwaraeodd y plant yn dda, gan lwyddo i ennill sawl gêm. Diolch i Mrs. Hamilton am hyfforddi'r tîm.

**Cystadleuaeth Nos Galan**
Llongyfarchiadau i Meghan Williams (1af) a Tori Webb (3ydd) am eu llwyddiant yng nghystadleuaeth cynllunio poster i hysbysebu Ras Nos Galan Aberpennar.

# Ysgol Gymraeg Castellau

**Staff yr Ysgol**
Estynnwn groeso cynnes i Miss Siân John gafodd ei phenodi fel Cynorthwyydd Y Dysgu i'r Cyfnod Sylfaen.

Dymunwn bob lwc i Mrs. Lisa Davey, Cynorthwyydd Y Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen wrth iddi ddechrau ar ei chyfnod mamolaeth - traed lan nawr Lisa! Bydd Miss Amy Lewis yn cyflenwi yn ei habsenoldeb.

**Bwrlwm Y Nadolig**
Bu'r cyfnod yn arwain at Ŵyl Y Nadolig yn un prysur iawn i deulu Castellau. Er gwaetha'r eira mawr, yr hen "ffliw" ac afiechydon di-ri eraill, cafwyd perfformiadau gwych gan y disgyblion yn y cyngherddau Nadolig. Diolch o galon i'r disgyblion a'r staff am eu gwaith diflino ac i'r rhieni ffyddlon am eu cefnogaeth parhaus.

**Ffair Nadolig Menter a Busnes**
Am 8:30 bore dydd Iau, yr 16eg o Ragfyr, roedd neuadd yr ysgol dan ei sang a llawn cyffro a bwrlwm Y Nadolig. Bu pob disgybl yn brysur yn paratoi cynnyrch i'w werthu yn ffair Nadolig Menter a Busnes yr ysgol. Gwnaeth pob dosbarth elw sylweddol. Diolch i'r GRhA a'r rhieni am gefnogi'r fenter. (Lluniau tudalen 13)

**Campau'r Ddraig**
Ddydd Gwener 21ain o Ionawr, aeth Blynyddoedd 5 a 6 i dderbyn hyfforddiant Campau'r Ddraig yng nghaeau chwaraeon Prifysgol Morgannwg yn Nhrefforest.

**Ymwelwyr**
Fel cyflwyniad i'w gwaith thema ar "Newidiadau" daeth mam Freddie o Flwyddyn 1 a'i chwaer fach newydd i'r dosbarth.

Fore dydd Gwener, 14eg o Ionawr, daeth bois Tîm Pêl Droed Yr Adar Gleision i'r ysgol i gynnal bore o giciau cosb noddedig gyda holl ddisgyblion yr ysgol. Codwyd dros £450. Diolch i bawb.

**Yr ysgol yn y gymuned**
Ar fore Sadwrn, gwlyb a gwyntog, y 15fed o Ionawr, swynodd disgyblion CA 2 y cyhoedd gyda'u canu melodaidd yn niwrnod agored Cwmni Bysiau Edwards. Diolch i'r disgyblion am eu parodrwydd ac i Mrs Janet Rowlands a Mrs Bethan Rowlands am eu gwaith diflino yn hyfforddi'r disgyblion. Diolch hefyd i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ac aelodau eraill o staff yr ysgol am gynnal y stondin fwyd. Gwnaethpwyd dros £800 o elw at goffrau'r gymdeithas.

# YSGOL GYNRADD GYMRAEG EVAN JAMES

**Dathlu'r Nadolig**
Cawsom gyfle i ddathlu'r Nadolig gyda sioeau'r plant bach. Cyflwynodd plant y dosbarthiadau meithrin sioe 'Siop Deganau' a chyflwynodd plant y dosbarthiadau derbyn sioe 'Anrhegion' yn neuadd yr ysgol.

Trefnwyd disgo'r Nadolig gan Gyngor yr ysgol diolch i Aled Wyn o Gaerdydd am fod yn 'D.J.' mor egniol eto eleni!

**Ymweliadau â'r Pantomeim**
Aeth plant dosbarthiadau 3 i 14 i weld pantomeim. Gwelodd dosbarthiadau 3 i 7 'Martyn a'r Lamp Hud' cyn y Nadolig a gwelodd dosbarthiadau 8 i 14 'Myrddin' ar ôl y Nadolig - gwisgodd llawer o'r plant fel dewiniaid! Cafodd pawb hwyl a diolch i Heddlu'r Gymuned am ein cludo i'r Miwni ac yn ôl i'r ysgol yn saff.

**Llongyfarchiadau**
'Roedd yn hyfryd gweld nifer o gyn-ddisgyblion yr ysgol yn sioe gerdd yr ysgol gyfun leol 'Chwarae Chwaer'. Llongyfarchiadau i Elina Thomas oedd â'r brif ran ac i Sali Bayliss, Huw Blainey, Jake Lewis a Carwyn Rees oedd â rhannau blaenllaw eraill.

**Ras Nos Galan**
Mae hi'n amlwg fod nifer o blant heini yn yr ysgol! Rhedodd Layla a Charlotte Powell, Ben Smith a Wil Gray yn y ras Nos Galan yn Aberpennar ac fe gafodd y plant fedalau am eu hymdrechion.


**Llwyddiannau**
Enillodd Morgan Preece wobr ariannol ar y rhaglen deledu Dickinson's Real Deal. 'Roedd rhaid iddo amcangyfrif gwerth antîc ar ei ffordd i'r ocsiwn. Llwyddodd Lowri Durham i orffen yn ail mewn cystadleuaeth tae kwon do ym Mhencampwriaethau Cymru yng Nghasnewydd.

**Arweinwyr Chwarae**
'Roedd yr arweinwyr chwarae wrth eu boddau i dderbyn hetiau coch arbennig i amlygu eu hunain ar yr iard. Maent yn parhau â'r gwaith gwych o arwain gemau a dosbarthu offer pan fydd egwyl a diolch i Mrs. Nia Lockett am drefnu hyn.

**Cydymdeimlo**
'Rydym fel ysgol yn cydymdeimlo gyda theulu Anwen Coffey. 'Rydym i gyd yn cofio ei chyfraniad a'i chyfeillgarwch yn ystod ei chyfnodau fel athrawes gyflenwi yn yr ysgol.

**Elusen Yr Ysgol**
Bu Osian Evans o flwyddyn 4 yn casglu arian gleision mewn cadw-mi-gei a bu'n garedig iawn wrth gyfrannu swm o £15.00 i elusen yr ysgol am eleni sef cŵn i'r deillion.

## CORNEL Y PLANT



**Crafu pen**
Pa arwyddion sydd ar goll yn y symiau hyn?

10 ? 3 = 13
6 ? 6 = 0
40 ? 8 = 5
9 ? 3 = 27
30 ? 5 = 6
5 ? 5 = 25
9 ? 9 = 81
18 ? 9 = 27
16 ? 8 = 2
100 ? 10 = 10

Mae pob math o dywydd yn y llun hwn. Beth am fynd ati i'w liwio?






Mae Morus y Gwynt ac Ifan y Glaw wedi codi'r clown druan i'r awyr. Beth am liwio'r llun?


Hir ________ a byr__


Gan ba gath y mae'r gynffon fyrraf?

Gan ba eliffant y mae'r trwnc hwyaf?

Gan ba hogyn y mae'r trowsus byrraf?



# YSGOL CREIGIAU

Yn dilyn pedair cyngerdd Nadolig llwyddiannus iawn, roedd hi'n bleser gallu anfon siec am £870 i gronfa apêl U.N.I.C.E.F. i helpu trigolion Pacistan sydd dal i ddioddef effeithiau'r llifogydd gwael.

Cyn y Nadolig, fe gymrodd Côr yr Ysgol ran mewn dwy gyngerdd – un yng nghanolfan Byddin yr Iachawdwriaeth yn Canton a'r llall yn yr ysgol, ar y cyd gyda Chantorion Creigiau. Mae aelodau'r Côr yn gobeithio'n fawr taw cyngerdd gyntaf o lawer oedd hon gyda Chantorion Creigiau.

Mae wedi bod yn bleser cael Mr Dafydd Evans gyda ni fel myfyriwr ers mis Hydref. Myfyriwr o U.W.I.C. yw Dafydd ac yn gweithio gyda Dosbarth 5. Mae'r plant wrth eu boddau yn ei gwmni. Fel Dosbarthiadau 4 a 6, thema Dosbarth 5 yw'r Celtiaid. Mae themau newydd gan weddill y dosbarthiadau hefyd – "Criw Cyw Creigiau" yw thema Dosbarth 1, "Y Gofod" yw thema Dosbarth 2 ac mae Dosbarth 3 yn astudio "Goleuni'r Dydd a Thywyllwch y Nos". Fel rhan o'u thema, mae'r plant wedi bod yn plannu bylbiau blodau'r gwanwyn yn eu hardal awyr agored, a nawr, maent yn edrych ymlaen yn eiddgar at eu gweld yn blaguro. Mae nhw hefyd yn edrych ymlaen at gael mynd ar wibdaith i brofi gwir dywyllwch Pwll Mawr.

Mae'n bleser cael cwmni Miss Arrate Isquierdo yn yr ysgol hefyd ar hyn o bryd. Mae Miss Isquierdo yn fyfyrwraig ym mhrifysgol Mondragon sydd yn ardal y Basg, Sbaen. Mae hi am fod yn athrawes fabanod mewn ysgol ddwyieithog adref yn y Basg. Mae Miss Isquierdo gyda ni am gyfnod o 7 wythnos i weld sut mae'r iaith Gymraeg yn cael ei dysgu yn y ddwy adran.

Mae'r ysgol wedi ei dderbyn yn ran o brosiect "Comenius" sy'n golygu ein bod wedi ein hefeillio gyda nifer o ysgolion ar hyd a lled Ewrop. Y gobaith yw y daw cyfle i aelodau o'r staff ymweld â rhai o'r ysgolion Ewropeaidd yma o fewn y ddwy flynedd nesaf ac y bydd cyfle i'r plant hefyd gyfathrebu â'i gilydd drwy gyfrwng y wê. Mae'r ymweliad cyntaf yn digwydd yn ystod mis Ionawr pan fydd Miss Buddug Harries yn ymweld â Sicily.


Llongyfarchiadau i Gareth Powell, Blwyddyn 6, am gael ei ddewis yn un o'r 36 olaf sy'n ceisio am le yng ngharfan tîm criced plant ysgolion cynradd Cymru. Pob lwc, Gareth, yn y rownd nesaf!

Llongyfarchiadau hefyd i'r canlynol: Manon Evans a Menna Ellis am ddod yn ail a Megan Holland a Katie Hulley am ddod yn gydradd drydydd yng nghystadleuaeth parau gymnasteg yr Urdd. Da iawn ferched!

Roedd hi'n braf iawn hefyd gweld deunaw o blant blynyddoedd 5 a 6 yn cystadlu'n ddiweddar yng nghystadleuaeth rhedeg trawsgwlad Sialens "Cardiff X" yng ngerddi Pontcanna. Mae hon yn gystadleuaeth sy'n denu rhedwyr o dros Brydain gyfan. Er gwaethaf y gwlypter oedd dan draed, fe gafodd pob un o'r deunaw lawer o hwyl. Llongyfarchiadau!

# CROESAIR COL

## Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau



**Ar Draws**

1. Gorthrymder (6)
3. Morgrug (6)
6. Annedd (6)
7. Dioddefydd eilwaith (6)
8. Crimpio (5)
10. Adeiniwr (7)
14. Bwriadaeth (11)
17. Twyllodrus (7)
19. Llugoer (5)
20. Hoffi (6)
21. Llysiau Gwyddelig (6)
22. Negyddol (6)
23. Tir Coediog (6)

**I Lawr**

1. Traflyncu (6)
2. Difa gan dywydd (5)
4. Diwyd (5)
5. Cyfrif (6)
9. Anafu (5)
11. Mynd o dan dŵr (4)
12. Cynhyrchu hylif gwyn buwch (5)
13. Tir gyda dŵr o'i amgylch (4)
15. Pastwn (6)
16. Porthor (6)
18. Blaguro (5)
19. Cuddio (5)

**Atebion i: Croesair Col**
**34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX**
**erbyn 15 Chwefror 2011**

# Atebion Rhagfyr

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Y | M | E | S | T | Y | N | | B | A | N | C |
| | | E | | E | | M | | A | | D | | Y |
| | C | L | E | B | A | R | | T | R | O | E | D |
| D | | A | | O | | O | | E | | L | | FF |
| A | N | N | E | N | | A | W | G | R | Y | M | U |
| T | | | | W | | D | | | | G | | R |
| B | | G | E | R | I | | C | A | R | U | | F |
| L | | O | | | | C | | T | | | | I |
| Y | M | G | E | C | R | U | | G | W | I | NG | O |
| G | | L | | A | | L | | O | | A | | L |
| I | R | A | I | D | | D | I | F | A | R | W | |
| A | | I | | I | | E | | U | | D | | |
| D | Y | S | G | | D | R | Y | S | L | Y | D | |

# LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

*Gohebydd y Mis:*
*Glenys M. Roberts*

Mae'n ddwy flynedd ers inni atgyfodi colofn newyddion Llantrisant a phenderfynu arbrofi â chadwyn o ohebwyr. Hyd yn hyn, mae pethau wedi gweithio'n dda. Diolch i bawb a gyfrannodd – nifer ohonoch wedi cyfrannu colofn am rai misoedd. Mae 'na eraill, rwy'n siŵr, sy'n ysu am y cyfle! Peidiwch â digalonni – daw'r alwad cyn hir!

**Hen arferion**
Faint ohonoch gafodd garolwyr at y drws yn y cyfnod gwyn cyn y Nadolig? Fe gafodd nifer o deuluoedd yn Llantrisant ymweliad gan Teilo ac Indeg (a Mam-gu) – yn canu fel angylion, a'r detholiad yn cynnwys cerdd dant, hyd yn oed. Da iawn chi – a da chi dewch eto y flwyddyn nesaf; bydd croeso mawr i chi.

Fore Calan, roedd nifer wedi dod draw i Faes yr Haul, gyda'r bwriad o ddechrau'r flwyddyn yn iach, a mynd am dro wedi'r holl loddesta. Wrth inni fagu nerth â phaned o goffi a mins pei, dyna sŵn canu y tu allan! Dyna braf oedd croesawu criw Carolwyr y Tabernacl ar eu taith ganu calennig flynyddol. Roedd y plantos yn arbennig o frwd, ac yn wir, nid un Fari Lwyd oedd gyda nhw, ond dwy! Dechrau addawol iawn i'r flwyddyn newydd.

Fore Sul, 16 Ionawr cawsom ein hatgoffa yn yr oedfa yn yr Efail Isaf mai'r duw Rhufeinig Ianws a roddodd ei enw i fis Ionawr . Hwn oedd y duw oedd yn cael ei gynrychioli â dau ben - un yn edrych yn ôl a'r llall yn edrych ymlaen. Wyddwn ni ddim tan y bore hwnnw mai duw giatiau a chlwydi oedd Ianws. Mae Guto'n sôn yn aml ar yr arfer pan oedd o'n blentyn ym Mhen Llŷn o ddwyn giatiau ar nos Galan. Byddai ei dad yn gorfod mynd o gwmpas i symud giatiau'r fferm i le diogel neu, erbyn y bore, byddai rhai ohonynt wedi diflannu a byddai'n rhaid crwydro'r ardal i chwilio amdanynt!

Os gwyddoch chi am hen arferion cysylltiedig â'ch ardal enedigol, beth am roi gwybod i'r Tafod?

**Anrhydeddu athrawes**
Mae Ceri Anwen James, gynt o Lantrisant, wedi ennill gwobr gan Brifysgol Rhydychen fel athrawes gwbl arbennig. Mae Ceri yn athrawes yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg a chafodd ei henwebu am y wobr gan Ruth Pilcher, myfyrwraig flwyddyn gynta yng Ngholeg Ioan Sant. "Hi oedd yr athrawes Almaeneg ac roedd hi'n ysbrydoliaeth, yn addysgiadol ac yn bersonol," meddai Ruth. Cewch y stori'n llawn, a llun, os ewch i'r dudalen hon ar y we - http://cdnedge.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_9280000/newsid_9286300/9286385.stm - lle mae Ruth yn sôn am ymroddiad diarbed Ceri ac am y ffordd y cafodd ei hysbrydoli ganddi. Llongyfarchiadau mawr Ceri – ac mae'n braf gweld athrawon yn cael cydnabyddiaeth am unwaith am eu gwaith caled y tu allan i'r oriau gwaith swyddogol.

**Antur enbyd**
Bu criw ffilmio o adran newyddion y BBC draw yng nghwmni Ceri a Mark Morgan ym Meisgyn ddechrau Rhagfyr yn cyfweld â'r teulu cyfan cyn antur Mark yn Antartica fis Rhagfyr nesaf. Ac antur yn wir fydd hon - mae Mark wedi'i ddewis i fynd ar daith i Begwn y De. Bydd hon yn fwy na thaith a dweud y gwir, gan y bydd yn rhaid tynnu popeth drwy'r eira am filltiroedd lawer. Cafodd yr eitem ei darlledu ar Ionawr y cyntaf. Pob hwyl ar y paratoi, Mark – byddwn yn dilyn dy hanes â diddordeb mawr.

**Croeso i Feisgyn**
Croeso cynnes i Marc Davies a Nerys Stone a symudodd i fyw ym Meisgyn ddechrau mis Tachwedd. Priodwyd Marc, gynt o Lwyn Menlli, Rhuthun, a Nerys, sy'n wreiddiol o Bontypŵl, yn Nhŷ Tredegar ar y Sul cyn y Nadolig. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddynt.

Mae Marc yn athro gwyddoniaeth yn Ysgol Gyfun Llanhari er 2003, ac yn bennaeth y Gyfadran Wyddoniaeth er 2010, a Nerys yn athrawes yn Ysgol y Rhath, Caerdydd. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn ein plith.

**Croeso adre**
Mae'n braf cael croesawu Daniel Swain adre i Lantrisant, am gyfnod o leiaf, ar ôl blynyddoedd yn alltud yn Llundain! Mae'n siŵr bod dy chwiorydd a'r plantos yn falch iawn o dy gael o gwmpas, Daniel. Gobeithio y gallant dy berswadio i aros!

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau cynnes i Rhodri a Rhian Morris ar enedigaeth eu plentyn cyntaf. Ganwyd Gruffydd ar Ragfyr 29fed. Mae'r teulu bach yn byw ym Meisgyn, a Rhian (neu Mrs Morris) yn athrawes yn Ysgol Gynradd Gymraeg Gartholwg. Mae Gruffydd yn ŵyr cyntaf i Keith a Jen Morris ac yn gefnder i Elin, merch fach Owen a Chris. Pob dymuniad da i Gruffydd a'r teulu i gyd.

**Llwyddiannau**
Llongyfarchiadau i Bethan Donnelly o Lantrisant, ac i Eleri Fowler a Megan Thomas o Feisgyn ar eu llwyddiant yn arholiad piano gradd 4 ABRSM yn ddiweddar. Llongyfarchiadau hefyd i Carys Fowler, chwaer Eleri, a lwyddodd yn ei harholiad piano Gradd 5.

# GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol:*
*Betsi Griffiths*

**Y NADOLIG**
Oherwydd y rhew a'r eira ar ddiwedd Tachwedd a mis Rhagfyr gohiriwyd llawer iawn o ddathliadau arferol y Nadolig yn y cwm. Methwyd a chynnal Gwasanaeth Carolau Moreia ac ymddiheirwn i'r bobl a fu'n eistedd tu allan yn eu ceir yn aros am y Gwasanaeth. Gohuriwyd sawl cinio yn y cwm hefyd tan y Pasg.

**CAU CAPEL GLYNOGWR**
Wrth deithio drwy Glynogwr mae'n drist gweld fod y Capel wedi cau ac ar werth. Agorwyd y Capel yn 1819

**LLONGYFARCHIADAU**
Mae Mike a Jacqueline Webb wedi bod yn dathlu genedigaeth dwy orwyres yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Helen a Carl ar enedigaeth Charlotte ym mis Rhagfyr a llongyfarchiadau i Tammy a James ar enedigaeth Aisha ym mis Ionawr 2011. Mae 13 o orwyrion gan Mike a Jacqueline erbyn hyn 7 merch a 6 bachgen.

**CYMUNEDAU'N GYNTAF**
Mae llawer o gyrsiau wedi eu trefnu yn y Ganolfan Gymunedol yn Evanstown ac yn y Ganolfan Gymunedol yn Hendreforgan. Mae cyrsiau ar baratoi bwyd, ymarfer corff, colli pwysau, Cymraeg ac arlunio a dysgu sut i ddefnyddio cyfrifiaduron. Mae'r canolfannau hefyd yn cynorthwyo pobl sut i wneud cais am fudd-daliadau ac yn eu helpu i chwilio am waith. Mae cyrsiau hefyd i bobl sydd ddim yn gweithio . Cysylltwch a'r canolfannau i weld beth sydd ymlaen at eich dant chwi.

**Merched y Wawr, Tonysguboriau**
Dyma ddigwyddiadau'r misoedd nesaf:
16 Chwefror – Miss Eurwen Richards
16 Mawrth – Noson gerddorol

**Cymdeithas Gymraeg Llantrisant**
Nos Wener, 4 Mawrth y bydd Cinio Gŵyl Ddewi'r Gymdeithas, ac nid amser cinio dydd Sul y 6ed, fel y trefnwyd yn wreiddiol. Newidiwyd y lleoliad hefyd, i westy'r Manor Parc Country Hotel, Thornhill, Caerdydd. Manylion llawn gan Judith Thomas - johnllewt@hotmail.com .

**Newyddion mis nesaf**
Margaret White fydd y colofnydd y mis nesaf – cofiwch roi gwybod iddi am unrhyw newyddion - maggi_2@hotmail.co.uk

# BAN DDY GRON! – Gwaharddiad ar y Dyn Dŵad

Mae’r bardd a’r llenor Goronwy Jones, neu’r Dyn Dŵad, wedi cael ei wahardd rhag cyhoeddi rhagor o lyfrau - a hynny gan neb llai na’i wraig ef ei hun...

Dywedodd yr addysgwraig a’r gwleidydd adnabyddus y Dr Sian Arianrhod Pugh fod nifer o etholiadau pwysig iawn yn cael eu cynnal yn ystod 2011 ac nad yw’n awyddus i weld rhagor o hanes ei bywyd personol hi a’i gŵr yn ymddangos mewn print.

“Bydd Cymru’n pleidleisio mewn Refferendwm ar ragor o bwerau i’r Cynulliad Cenedlaethol cyn bo hir ac nid dyma’r amser i ffraeo ymysg ein gilydd. Ac felly ‘Nefar in Ewrop’ fydd cyfrol olaf Goronwy Jones.” Dr S A Pugh.

Ar ôl trafod gyda’i ffrindiau agosaf daeth y par, sy’n briod ers dros ugain mlynedd, i’r penderfyniad fod rhaid bod yn bragmataidd dros Gymru yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn yn ei hanes. Bydd y Cynulliad yn cadw ei gofnodion yn uniaith Saesneg a bydd Y Dyn Dŵad yn cadw ei Gof-nodion iddo’i hun.


“Mae’n rhaid i ni i gyd rannu baich y toriadau.”: Dafydd Cam a Coes Clegg.

“Mae Cymru’n ffynnu, mae’r dyfodol yn ddisglair ac mae’n swyddogol bellach fod Cymraeg yn Iaith Pawb.”: Ben J Howells. AC

“Dim ond gweithiwr ydw i. Ma’n rhaid i ni dderbyn beth ma’r bos yn ddeud.”: Goronwy Jones.

“Gwynt teg ar ei ol.”: *Y Dinesydd*.

Cyhoeddir **Nefar in Ewrop** gan Y Lolfa. Yr awdur yw Dafydd Huws. Pris: £7.95






Rhodri a Rhian Morris gyda Gruffydd

## Ysgol Castellau



Ffair Nadolig



Ymweliad â Sain Ffagan

## Ffair Nadolig



Abigail Hulley gyda Siôn Corn

Roedd Ffair Nadolig Cyfeillion Ysgol Creigiau yn llwyddiant ysgubol gan godi dros £1200 i'r ysgol.

Tyrroedd cannoedd o rieni a phlant yr ysgol i ymuno yn yr hwyl. Roedd stondinau i'r oedolion yn gwerthu cardiau, cacennau ac anrhegion Nadolig, a llawer iawn o gemau i'r plant gael chwarae.

Aeth disgyblion hŷn yr ysgol ati i gynnal stondin 'Creigiau Crefftog' ble gwerthwyd anrhegion a wnaed â llaw gan godi £100, gyda'r bwriad o ddefnyddio'r arian i brynu peiriant creu bathodynnau!

Cafwyd ymweliad gan neb llai na Siôn Corn ei hun gan droi'r digwyddiad yn un arbennig iawn.

# Rifiw y Dwrlyn









menter caerdydd

www.mentercaerdydd.org
029 20 56 56 58

## Penwythnos Teulu i Langrannog
### Ebrill 15 – 17, 2011

Mae lle ar ôl ar y penwythnos poblogaidd hwn yng Ngwersyll Llangrannog - ewch i'r wefan am fwy o fanylion.

## Bwrlwm

Fe fydd y Fenter yn cynnig cyfleoedd CHWARE yn rhad ac am ddim yn ystod gwyliau hanner tymor rhwng Chwefror 21 a 25. Bydd y gweithgareddau yn cynnwys coginio, celf a chrefft, wii, playstations a llawer mwy, i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae croeso cynnes iawn i blant o ddosbarth derbyn i flwyddyn 6. Nid oes angen cofrestru o flaen llaw - dim ond dod ar y diwrnod! Fe fydd y sesiynau yn cael eu cynnal bob dydd yn yr ysgolion isod:
Ysgol Glan Morfa (10am - 12pm)
Ysgol Coed y Gof (10am - 12pm)
Ysgol Nant Caerau (2pm—4pm)

## Miri Meithrin

Dydd Mawrth, Chwefror 22
2pm - 3.30pm
Canolfan Hamdden Pentwyn

Dewch i ganu ac i ddawnsio gyda Einir a Trystan o Cyw, a Holi Hana a Bert!
Fe fydd gweithgareddau celf a chrefft a castell neidio hefyd. Croeso cynnes i bawb.

## Ieuenctid

Fe fydd amserlen amrywiol o weithdai undydd i ddisgbyblion blwyddyn 7, 8 a 9 yn cael ei gynnal ar y cyd â'r Urdd yn ystod Hanner Tymor Chwefror.
Coginio - Animeiddio - Beicio BMX
Rhedeg Rhydd - Hwylio
Cerdded Afon
Am fwy o fanylion ewch i wefan y Fenter neu angharad@mentercaerdydd.org



Cynhaliwyd cwrs undydd Canwio i Oedolion lawr yn y Bae yn ystod mis Ionawr. Roedd y cwrs, a drefnwyd mewn partneriarth gyda Chyngor Caerdydd yn llwyddiant ysgubol!
Y gobaith yw cynnal mwy o gyrsiau tebyg yn y dyfodol!

## Diwrnod Chwarae

Dydd Mercher Chwefror 23
Cyfleodd chwarae rhad ac am ddim yn Ysgol Plasmawr (10am - 12pm) ac Ysgol Bro Eirwg (1.30pm-3.30pm)
Bydd wal ddringo Boulders yno, yn ogystal â chwaraeon, coginio, celf, colur dolur a llawer mwy!
aweldavies@mentercaerdydd.org

## Cynlluniau Gofal Hanner Tymor Chwefror

**21 – 25 Chwefror, 8.30am – 5.30pm**
Lleoliad: Ysgol Melin Gruffydd
ac Ysgol Treganna
Croeso i ddisgyblion o
ddosbarth derbyn, i flwyddyn 6.
£15 y dydd,
Tripiau, gweithdai, ymweliadau, gweithgareddau crefft a choginio, chwaraeon ayyb
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â meleri@mentercaerdydd.org

## Cwis Cymraeg

Fe fydd cwis Cymraeg nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, Chwefror 27 yn y Mochyn Du am 8pm.
£1 yr un.

## 'HWYL' HANNER TYMOR CHWEFROR

**Gweithgareddau ar gyfer disgyblion blynyddoedd 1, 2 a 3**
Celf Drama Gymnasteg a Thrampolîn Rygbi
**Gweithgareddau ar gyfer disgyblion blynyddoedd 4, 5, a 6**
Celf Coginio Hoci Gymnasteg a Thrampolin Canwio

Am fwy o wybodaeth ewch i'r wefan neu cysylltwch ag aweldavies@mentercaerdydd.org

## Tonteg a Phentre'r Eglwys

Trist yw cofnodi marwolaeth un o gefnogwyr mwyaf selog ein papur bro, Miss Jean Lloyd Jones. Cynhaliwyd y Gwasanaeth Coffa ar y deuddegfod o Ionawr yn ei Chapel sef Salem Tonteg gyda'i gweinidog, ffrind selog iawn, y Parchedig Peter Cutts, wrth y llyw. Teg ac addas yw defnyddio'r term hwn gan mai llywydd cwch ar fad achub ym Mermo oedd ei thad tra fu ef a'i wraig Kit yn magu Jean a'i chwaer Margaret. Daeth ei Mam i lawr i Drehopcyn at ei theulu ei hun ar gyfer genedigaeth Jean ond ym 1967 y symudodd hi a'i rhieni i fyw'n barhaol yn Nhonteg. Erbyn hynny roedd Margaret a swydd nyrsio yn Ysbyty Llanddochau.

Cadwodd Miss Jones gysylltiad arbennig o agos â'r Bermo trwy gydol ei hoes a braint a gwefr oedd gwrando ar Glyn ei chefnder o'r ardal hon yn canu "Mae d'eisiau Di bob awr" yn ei hangladd. Byddai Miss Jones yn sôn yn aml yr hoffai symud yn ôl i'r Bermo ond, mewn gwirionedd, roedd hi wedi ymsefydlu'n gadarn yn yr ardal hon. Gedy fwlch ar ei hol a rhyfedd yw pasio'i thŷ a chofio nad yw yno bellach. Tynnodd y gymuned at ei gilydd a hynny trwy ei phatrwm bob dydd o fyw. Cymrai Miss Jones yn ganiataol fod y busnesau lleol yn estyniad o'i chartref – fel rhan o lwybr gardd hi ei hunan fel petai. Hyfryd oedd gweld cynrychiolaeth o'r busnesau a'r siopau hyn yn ei Gwasanaeth – llond cor o'r Siop Trin Gwallt er enghraifft. Yn ei ffordd ei hun creodd Miss Jones naws teuluol o fewn ardal lle nad yw rhai teuluoedd yn adnabod eu cymdogion.

Cofir ei charedigrwydd diffael ac yn arbennig ei theyrngarwch a'i ffyddlondeb i ddanfon cardiau ac anrhegion i lawer o bobl. Ymfalchiau'n fawr yn llwyddiant ei nith, Sarah. Os byddai unrhywun yn sal gwnai Miss Jones yn siwr fod pob un yn y Gymdeithas neu'r Capel yn arwyddo carden. Ar brydiau byddai'n teithio i Ferthyr neu Abertawe er mwyn gwneud yn siwr fod y garden yn berffaith addas. Roedd yn ffodus ei bod yn gwybod amser y bysiau lleol i gyd, a hynny i bob cyfeiriad. Roedd amseroedd Traws Cambria hefyd ar flaen ei bysedd ac o ganlyniad, medrodd dreulio wythnos yn yr Eisteddfod Genedlaethol ble bynnag byddai'n cymryd lle. Cymerai ar ei hun i ffonio Pwyllgor yr Eisteddfod os byddai angen addasu trefniant rhedeg y bysys! Rhaid cofnodi hefyd iddi fod yn aelod o Gôr Godre'r y Garth yn ei ddyddiau cynnar.

Miss Jones;-
yn yr ardal hon y buoch byw
gan nythu yn ei chol
ond fe roisoch lawer mwy i ni
nag y cawsoch chi yn ôl.
Cofir yn gynnes iawn amdani.

# YSGOL GYFUN GARTH OLWG

(Lluniau tudalen 16)



**Chwaraewr o Fri ! Tenis Bwrdd – Dwyrain Canolbarth Lloegr**

Er bod y categorïau oedran o dan 13, 15 ac 18 sy'n hŷn nag oedran Jac Jenkins, sydd yn un ar ddeg ac ym Mlwyddyn 7, mae'n dangos y gall gystadlu ar y lefel honno – a llwyddo! Mae Jac, sy'n dod o Ynysybwl ac yn gyn-ddisgybl Evan James, wedi dod yn ail ym mhob un o'r gemau grŵp - a dim ond yn colli allan i chwaraewyr mwy profiadol o Loegr. Fel arfer y ddau chwaraewr gorau o bob grŵp sydd yn symud ymlaen i'r Camau "knockout". Mae Jac fodd bynnag wedi curo chwaraewr 16 oed o Ddyfnaint yn y categori o dan 18, sydd yn dangos ei fod yn barod i herio'r chwaraewyr hŷn yn barod !

Mae'n gyfnod prysur iawn iddo, ond does dim seibiant chwaith - mae ganddo dwrnameintiau yn Abertyleri a Thwrci ar y gorwel. Bydd y daith i Dwrci yn golygu ei fod yn cael ei hyfforddi gan y goreuon ac yn cystadlu gyda chwaraewyr gorau ei oedran o bob cwr o Ewrop. Mae hyn yn rhan o'r rhaglen "EuroKids" sydd wedi rhoi cyfle i Jac deithio i'r Eidal a Sbaen ar achlysuron blaenorol.

Ym mis Mawrth bydd Jac yn mynychu'r Pencampwriaethau Cymraeg yng Ngerddi Sophia, Caerdydd lle bydd yn cystadlu Dan 15 a Dan 18.

Da iawn ti Jac! A phob hwyl ym mis Mawrth!

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Jamie-Lee Knight o Flwyddyn 13 am gael ei dewis i fod yn aelod o dîm "Showjumping Cymru". Yn ddiweddar mae Jamie-Lee wedi cael ei dewis i helpu William Fox-Pitt mewn arddangosfa a chymryd rhan mewn "Grand Prix" neidio ceffylau yng Ngwlad yr Haf. Da iawn ti Jamie-Lee a llongyfarchiadau i ti ar dy lwyddiant.

**Plant Mewn Angen**

Roedd 19 Tachwedd yn ddiwrnod Plant Mewn Angen ac roedd bwrlwm ar draws yr ysgol. Bu llu o weithgareddau yn ystod y dydd a chasglwyd £1074.01! Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth ac am y casgliad rhagorol.

**"Chwarae Chwaer"**

Ym mis Rhagfyr 2010, cafodd disgyblion blynyddoedd 7-13, Ysgol Gyfun Garth Olwg y fraint o berfformio yn ein cynhyrchiad ni o Chwarae Chwaer. Ar ôl y clyweliadau a gynhaliwyd yn gynnar fis Hydref, cefais y newyddion anhygoel fy mod i wedi cael rhan y prif gymeriad, sef menyw o'r enw Deloris Van Cartier.

Roedd plot y sioe yn un cyffrous ac egnïol iawn yn sôn am gantores o Ynys y Barri sy'n ysu i fod yn enwog. Mae mewn perthynas â phennaeth y 'Mob' - Vince La Rocca. Ond, pan mae e'n gwrthod gadael ei wraig mae hithau'n penderfynu gorffen y berthynas ac wrth ymweld ag ef yn ei swyddfa, mae'n dyst i lofruddiaeth. Wedi ei brawychu, fe â Deloris at yr heddlu sy'n ei darbwyllo i guddio am ychydig fisoedd. Ond nid cuddfan gyffredin fel tŷ neu garafán mohono, ond yn hytrach lleiandy! Yn ogystal â chael ei derbyn i blith y lleianod, caiff Deloris hunaniaeth newydd fel y Chwaer Mary Clarence. Ond, nid yw Deloris yn cydymffurfio'n llwyr i'r bywyd sanctaidd hwn, fel y gallwch ddychmygu! Mae'n ymweld â thŷ tafarn ac yn llwyddo i drawsnewid y côr diflas yn un ifanc llawn bywyd, sydd yn ei dro yn annog mwy o bobl ifanc i'r eglwys. Ond, beth am Vince? Am ba hyd y gellir cuddio'r ffaith bod Deloris yn byw bywyd nefolaidd rhagddo? Erbyn yr ail act, mae Deloris yn helpu'r lleianod unwaith eto trwy ddod yn athrawes i blant amharchus Ysgol Santes Garth Onnen, ac yn creu côr llwyddiannus o'r disgyblion.

Dechreuon ni ymarferi ar gyfer y sioe yng nghanol mis Hydref. I bobol ifanc yn eu harddegau, mae mynychu ymarferion amser cinio yn sialens a dweud y lleiaf, oherwydd mae gofyn am ymroddiad cyson - felly i ddechrau roedd y broses yn un araf. Wedi cyfnod o ddysgu'r caneuon a blocio'r ddeialog, sylweddolon ni ein bod yng nghanol mis Tachwedd yn barod. Amser Panicio!!! Felly, ar ôl yr holl ymarferion, ar ôl ysgol a boreau Sadwrn, (sydd ddim yn hawdd pam rydych chi'n 18 mlwydd oed ac wedi bod allan tan oriau mân y bore ar nos Wener!), fe ddaeth wythnos y sioe.

Roedd perfformio dros gyfnod o dair noson yn brofiad gwych! gwych! gwych! Fel cast, cawsom ni lawer o hwyl gefn llwyfan ac roedd hi'n gyfle gwych i flynyddoedd gwahanol yr Ysgol gymysgu a gwneud ffrindiau newydd. Roedd y gynulleidfa yn canmol y sioe trwy ddweud ei bod hi'n llawn egni a'i bod mor broffesiynol, nid yn unig ein perfformiadau ni ond y set, y goleuo cyffrous a bywiog a'r gwisgoedd. Roedd yr holl broses yn brofiad arbennig ac yn un bythgofiadwy i bawb. Ar y noson olaf, fe gawsom ni barti ar ddiwedd y sioe ac roedd hi'n gyfle gwych i allu dweud hwyl fawr am y tro ola', wrth fwyta pizza!

Hoffwn ddiolch ar ran y cast cyfan yn arbennig i Ms Iorwerth a Miss Evans a Miss Roberts; Miss Lewis a Mr Stephens am yr holl waith caled aeth i mewn i greu'r cynhyrchiad. Rhaid diolch am yr holl atgofion melys y bydd pob un ohonom yn sicr yn mynd gyda ni o'r ysgol.

Bendith arnoch !

Elina Thomas, Blwyddyn 13.

**Cwrs Preswyl yr Adran Gymraeg**

Ar fore'r 24ain o Dachwedd, cychwynnodd wyth ohonom ar daith bws mini i Wersyll Glan-llyn, er mwyn mynychu cwrs preswyl tridiau yn seiliedig ar ein cwrs Cymraeg Safon Uwch. Dros dri diwrnod, buom yn mwynhau darlithoedd gan ddarlithwyr proffesiynol ac arbenigol Adran Gymraeg Prifysgol Bangor (a llenorion eraill megis Ceri Wyn Jones ac Emyr Llywelyn). Cawsom sesiynau ar bynciau megis chwedl Branwen, cyfieithu, sgriptio, cynganeddu a cherddi Taliesin ac Aneirin, yn ogystal â barddoniaeth yr ugeinfed ganrif.

Ar y noson gyntaf, mwynhaom dwmpath ac wrth adael synnwyd pawb wrth iddi ddechrau fwrw eira. Roedd codi'r bore trannoeth a gweld yr olygfa i gyd wedi ei orchuddio gan flanced wen yn syfrdanol.

Talwrn oedd gweithgaredd ein noson olaf yng Nglan-llyn, a rhwng yr hwyl a chwerthin, gwelwyd llawer iawn o dalent a "fflêr" barddonol - hyd yn oed gan ysgolion y Gorllewin! Cipiodd Ysgol Maes yr Yrfa'r wobr gyntaf a ninnau'n ail!

Cawsom brofiadau amrywiol, o'r hwyl i'r addysgiadol, a dysgodd bawb lawer gan y darlithwyr profiadol a gwybodus. Hoffwn ddiolch o galon i bob un o'r darlithwyr - yn arbennig i'r Athro Peredur Lynch, ac i Wersyll Glan-llyn am drefnu'r cwrs. Hoffwn hefyd ddiolch yn fawr i Mr George – 'Dewi o'r Ffynnon', am fod yn ddigon dewr i'n cymryd, ac yn arbennig am wneud jobyn arbennig yn ein gyrru adref trwy'r eira - marathon o 8 awr!

Tomos Watkins, Blwyddyn 13.

**Taith i Sŵ Bryste**

Ar ddydd Llun 13eg o Ragfyr trefnodd yr Adran Ddaearyddiaeth daith i Sŵ Bryste i Flwyddyn 9. Pwrpas y daith oedd ymweld ag anifeiliaid y fforest law trofannol a derbyn sesiwn addysgiadol gan weithwyr y sŵ.

Yn gyntaf cawson gwrdd â "hissing cockroach", a chafodd nifer helaeth ohonom gyfle i'w ddal. Yn ail cawson ni nhw gyfle i gwrdd, â theimlo, croen y neidr. Yn drydydd cawson ni gyfle i gwrdd â "stick insect" a gwylio gwahanol glipiau o ymddygiad anifeiliaid yn y fforestydd glaw. Ar ôl y sesiynau hyn cawsom gyfle i grwydro o amgylch y sw i gwrdd â'r anifeiliaid mawr eraill oedd yno. Diwrnod gwych !

**Taith Beicio Mynydd**

Ar ddiwedd Tymor y Nadolig, aeth Mr Rhodri Thomas a Mr Hywel Tyler a chriw o ddisgyblion Blwyddyn 8 a 9 i feicio mynydd yng Nglyncorrwg. Mae'r ganolfan beicio mynydd yng Nglyncorrwg yn le ardderchog i fynd i ymarfer eich sgiliau beicio! Mae yno filltiroedd o lwybrau prydferth sy'n troelli trwy'r coedwigoedd yng Nghwm Afan.

Roedd hi'n rhyddhad mawr wrth i ni gyrraedd pen y mynydd! Ar ôl gorffwys am dipyn a mwynhau'r golygfeydd dros Bae Abertawe a'r Mwmbwls, neidiodd y disgyblion ar eu beiciau a dechrau'r disgyniad i'r gwaelod. Er bod y tymheredd yn agos i rewbwynt a bod y llwybr yn eithaf heriol, braf oedd gweld fod y disgyblion yn ymdopi'n iawn a bod eu dyfalbarhad yn wych.

Diolch yn fawr iawn i Chris Rees a Chris Pierce am helpu yn ystod y daith.

**Cyrraedd yr Uchel Fannau!**

Llongyfarchiadau Mawr i ddau o ddisgyblion Bl 13 sydd wedi cael eu derbyn i Golegau Rhydychen a Chaergrawnt. Mae Tomos Watkins wedi cael ei dderbyn i Rydychen a Rudi Mears i Gaergrawnt. Da iawn chi fechgyn!





Mr Alun Evans, Ysgol Gyfun Llanhari, gyda Arwyr Gwyrdd Cymru

## YSGOL GYFUN GARTH OLWG



Cwrs Preswyl yr Adran Gymraeg

Ymweliad â Sŵ Bryste







Kathryn Blyth a Thriawd yr Eglws Newydd yng Ngwasanaeth y Plygain ym Methlehem, Gwaelod y Garth



Taith Beicio Mynydd disgyblion Blwyddyn 8 a 9 i Lyncorrwg

